Paul Kevin Fitt
Diploma Myfyriwr/MA mewn Lleoliad Proffesiynol mewn Rheolaeth Cefn Gwlad
Coleg Prifysgol Cymru, Bangor
8 Mai hyd at 2 Mehefin 2000
Goruchwyliwr Lleoliad: Joanna M Robertson, CCGC
Yr Ymchwil: Ymchwiliad i Sut y mae Deilliannau Gweithredoedd Penodol ar gyfer Cynlluniau Rhywogaeth a Chynefin yn cael eu Cofnodi a'u Hadrodd

Cyflwyniad

Yn 1992 arwyddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig ar y pryd y Cytundeb Bioamrywiaeth yn Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio de Janeiro. Yn ddiweddarach, yn 1994, cyhoeddodd sefydlu Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU.

Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU ***Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu y DU***

Nod cyffredinol Cynllun Gweithredu'r DU yw:
Gwarchod a gwella amrywiaeth biolegol o fewn y DU
Cyfrannu at gadwraeth Bioamrywiaeth byd-eang trwy bob mecanwaith briodol.

O hyn y daeth targedau, a osodwyd gan Grŵp Llywio y DU, ar gyfer cynnal a chynyddu poblogaethau neu ddosbarthiad rhywogaethau a chynefinoedd. Yn eu tro cynhyrchwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd allweddol. Er mwyn i dargedau cenedlaethol gael eu gweithredu, roedd angen modd i drosi'r rhain yn weithredoedd effeithiol ar lefel leol. Trwy hyn crëwyd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) ac mae'r rhain wedi bod ar fynd ers hynny.

Nid yw, fodd bynnag, yn hollol glir sut, ar lefel leol, y mae deilliannau gweithredoedd, a benderfynir gan faterion pendant, i gael eu cofnodi. Mae angen cysylltu gweithredu lleol efo adrodd yn genedlaethol.

Nod yr ymchwil hwn yw archwilio'r cysylltiadau rhwng deilliannau gweithredoedd CGBLl yng Ngwynedd, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri (PCE), a sut mae'r wybodaeth yma yn cael ei chyfathrebu i lefel y DU. Defnyddiwyd dwy enghraifft fodel gyda Chynllun Gweithredu Cynefin (CGC) a Chynllun Gweithredu Rhywogaeth (CGRh) gwybyddus:

Rhostiroedd tir isel
Llygoden bengron y dŵr (***Arvicola terrestris***).

Amcanion yr ymchwil oedd:
Darganfod gan weithwyr gweithwyr maes ddeilliannau gweithredoedd penodol y CGBLl.
Adnabod lle y mae'r gweithredoedd wedi eu cofnodi/lle y gallent gael eu cofnodi.
Darganfod sut y byddai'r gweithwyr yn hoffi i'r wybodaeth gael ei chofnodi yn y dyfodol a pha adborth y byddai arnynt ei angen.